ADAMS, WILLIAM (1813 - 1886), arbenigwr mewn mwnau

Enw: William Adams
Dyddiad geni: 1813
Dyddiad marw: 1886
Rhiant: Mary Adams
Rhiant: John Adams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arbenigwr mewn mwnau
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes
Awdur: Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Penycae, Ebbw Vale, 10 Hydref 1813, mab John a Mary Adams. Glowr oedd ei dad ar y pryd ac yn hynod fedrus yn y gwaith hwnnw, a daeth yn gynrychiolydd mwnawl dros Charles Lloyd Harford & Co.

Addysgwyd William yn Ysgol Ramadeg Pontfaen. Prentisiwyd ef yn 1828 gyda Charles Lloyd Harford, ac yng nghwrs amser daeth yn arbenigwr yn ei gangen ef ei hun o'r gwaith. Cyhoeddodd *Science of Mining* (1870), heblaw astudiaeth o ddaeareg maes glo De Cymru. Yr oedd wedi symud yn 1865 i Gaerdydd, lle yr agorodd fusnes fel cynrychiolydd pyllau glo ac fel peiriannydd mwnawl. Cymerth ddiddordeb yn Llyfrgell Gyhoeddus Caerdydd a rhoes iddi gasgliad o ffosylau wedi eu cael yng nglofeydd De Cymru. Yr oedd yn un o aelodau cyntaf y ' Cardiff Naturalists Society.' Bu farw 17 Awst 1886.

Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

Ffynonellau

Notable Welshmen (1700–1900) (1908)

T. Needham, *Memoir of William Adams* (1897)

Darllen Pellach

Industry Pioneers: William Adams: Engineer, geologist, naturalist, The Cardiff Times, 16 Gorffennaf 1910, t.4 (gyda llun)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734571

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu